What does the Youth Offending Team (YOT) do?

The YOT works with young people who:

- Have been arrested by the police
- Have pleaded/been found guilty of an offence in court
- Are currently on bail or remand waiting for their next court appearance

What happens next?

You may have already been given a date and time when either a YOT worker will visit you or you will come to the YOT office. If not a member of the YOT will contact you shortly to arrange a visit.

What happens at the visit?

The worker will want to know the details of the offence, why it happened and ask you about other things currently going on in your life. The YOT worker will be trying to find out what help you might need to stop any of the following three things:

Committing more offences

The YOT worker will assess whether it is likely that you might get into more trouble with the police. If the YOT worker thinks this is likely they will discuss with you a plan to try and avoid this.

Causing Harm to Others

This is trying to find out whether it is likely that your behaviour will result in serious danger to other people. The YOT worker will always consider what you did might affect the victim, your family or other members of the public.

Your Safety

The YOT worker will talk with you about how likely it is that you might be harmed in some way, either through your own behaviour or because of the actions of others in your life.

At the end of the visit, your YOT worker will explain what will happen next and whether they think the YOT should work with you to prevent any of the three risks above happening in the future.

What if the YOT worker decides I need more help?

You will be given the name of a YOT worker who will be working with you - this may be the same or a different worker to the one who visited you.

That worker will sit down and agree a plan of work with you and your family. The plan will aim to tackle the problems that might lead to you getting in trouble again. There may be some parts of the plan that you have to do whether you want to or not – your worker will discuss these with you. You will be asked to sign the plan to say you agree to work to it and you will be given your own copy.

How often will I have to see my YOT officer?

That will depend on how likely the YOT worker believes you are to get into further trouble with the police or cause harm to other people. The more likely this is, the more often you will see someone from the YOT. This may not always be the same worker - this will depend on your plan. Your YOT worker will tell you how often you will be expected to see someone from the YOT.

How long will I have to see someone from the YOT?

Usually the Court decide this so you will know when you leave court. Otherwise your YOT worker will tell you.

What happens if I do well?

If you have managed to do everything in your plan and your YOT worker believes you are unlikely to get into further trouble or cause harm to other people they will

Either:
say you no longer have to attend if you are on a final warning programme
Or:
go back to court and ask the court for permission for you to no longer attend.

The basic rule is that the less likely you are to get into trouble or cause harm to others, the less you will be expected to see your YOT worker.

What happens if I miss appointments?

You will be expected to keep all appointments with the YOT.

If you miss an appointment with an 'acceptable' reason (e.g. you are ill), your YOT worker will make another one.

If you miss an appointment with an 'unacceptable' reason, your YOT worker will either give you a warning or take you back to Court where the Magistrates will decide what should happen.

For further information

Please contact Neath Port Talbot Youth Offending Team on 01639 885050.

TTI Castell-nedd Port Talbot

www.npt.gov.uk

Chi a'r Tîm Troseddau Ieuenctid

Canllaw i bobl ifanc

www.npt.gov.uk

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Making a difference Gwahaniaeth er gwell

Beth mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) yn ei wneud?

Mae TTI yn gweithio gyda phobl ifanc sydd:

- Wedi'u harestio gan yr heddlu
- Wedi pledio/cael eu dyfarnu'n euog o drosedd mewn llys
- Ar fechnïaeth neu yn y ddalfa ar hyn o bryd yn aros cyn ymddangos yn y llys

Beth sy'n digwydd nesaf?

Hwyrach eich bod eisoes wedi cael dyddiad ac amser pryd bydd gweithiwr TTI yn dod i'ch gweld neu'n cyfarfod â chi yn swyddfa'r TTI. Os ddim, bydd aelod o'r TTI yn cysylltu â chi cyn bo hir i drefnu cyfarfod.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Bydd y gweithiwr am wybod rhagor am fanylion y drosedd, pam ei bod wedi digwydd ac yn gofyn i chi am bethau eraill sy'n digwydd yn eich bywyd ar hyn o bryd. Bydd y gweithiwr TTI yn ceisio gweld pa help y gallai fod ei angen arnoch mewn perthynas â'r canlynol:

Troseddu eto

Bydd y gweithiwr TTI yn asesu a ydych yn debygol o fynd i ragor o drybini gyda'r heddlu. Os yw'r gweithiwr TTI yn meddwl bod hyn yn debygol, bydd yn ceisio llunio cynllun ar eich cyfer i geisio atal hyn rhag digwydd.

Peri niwed i eraill

Diben hyn yw ceisio asesu a yw eich ymddygiad yn debygol o beri perygl difrifol i bobl eraill. Bydd y gweithiwr TTI bob amser yn ystyried sut gallai'r hyn a wnaethoch effeithio ar y dioddefwr, eich teulu neu aelodau eraill o'r cyhoedd.

Eich diogelwch

Bydd y gweithiwr TTI yn trafod pa mor debygol ydych chi o gael eich niweidio mewn unrhyw ffordd, naill ai o ganlyniad i'ch ymddygiad eich hun neu oherwydd pobl eraill yn eich bywyd.

Bydd y gweithiwr TTI yn egluro beth fydd yn digwydd nesaf ar ddiwedd y cyfarfod ac a ydyw o'r farn y dylai weithio gyda chi i atal unrhyw un o'r peryglon uchod rhag digwydd yn y dyfodol.

Beth os yw'r gweithiwr TTI yn penderfynu bod angen rhagor o help arna'i?

Byddwch yn cael enw'r gweithiwr TTI fydd yn gweithio gyda chi - gall fod yr un a ddaeth i'ch gweld neu'n weithiwr gwahanol.

Bydd y gweithiwr yma'n trafod gyda chi ac yn cytuno ar gynllun gwaith gyda chi a'ch teulu. Bydd y cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hynny a allai eich arwain i drybini eto. Gallai fod angen i chi benderfynu cynnwys rhai agweddau ar y cynllun- bydd eich gweithiwr yn trafod y rhain gyda chi. Bydd angen i chi lofnodi'r cynllun i ddweud eich bod yn cytuno ag e ac fe gewch eich copi eich hun.

Pa mor aml fydd yn rhaid i mi weld fy ngweithiwr TTI?

Bydd hynny'n dibynnu ar ba mor debygol rydych chi o fynd i ragor o drybini gyda'r heddlu neu beri niwed i eraill. Po fwyaf tebygol yw hyn, amlaf y byddwch yn gweld rhywun o'r TTI. Mae'n bosib nad yr un gweithiwr fydd bob tro - bydd hyn yn dibynnu ar eich cynllun. Bydd eich gweithiwr TTI yn dweud wrthych pa mor aml y bydd angen i chi weld rhywun o'r TTI.

Am ba mor hir fydd yn rhaid i mi weld rhywun o'r TTI?

Y llys sy'n penderfynu hyn fel arfer felly byddwch yn gwybod pan fyddwch yn gadael y llys. Fel arall, bydd eich gweithiwr TTI yn dweud wrthych.

Beth fydd yn digwydd os wyf yn gwneud yn dda?

Os ydych wedi llwyddo i wneud popeth yn eich cynllun ac mae eich gweithiwr TTI o'r farn nad ydych yn debygol o fynd i ragor o drybini neu niweidio pobl eraill, bydd:

Naill ai:
yn dweud nad oes rhaid i chi fynychu o hyn ymlaen os ydych ar raglen rhybudd terfynol
Neu:
yn dychwelyd i'r llys a gofyn am ganiatâd i chi beidio gorfod mynychu o hyn ymlaen.

Yn syml, y lleiaf tebygol ydych chi o fynd i drybini neu beri niwed i eraill, lleiaf y bydd disgwyl i chi fynd i weld eich gweithiwr TTI.

Beth sy'n digwydd os wyf yn colli apwyntiad?

Bydd disgwyl i chi gadw at bob apwyntiad gyda'r TTI.

Os ydych yn methu apwyntiad am reswm 'derbyniol' (e.e. os ydych yn sâl), bydd eich gweithiwr TTI yn trefnu un arall ar eich cyfer.

Os ydych yn methu apwyntiad am reswm 'annerbyniol', bydd eich gweithiwr TTI naill ai'n rhoi rhybudd i chi neu'n mynd â chi yn ôl i'r llys lle bydd yr Ynadon yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.

Am ragor o wybodaeth
Cysylltwch â Thîm Troseddau Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot - 01639 885050.

Neath Port Talbot YOT

www.npt.gov.uk



You and the Youth Offending Team

A Guide for young people

www.npt.gov.uk

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol
Making a difference Gwahaniaeth er gwell
CEX0356